

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 3ydd 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Gwenda Morris, Bethan Thomas, Eilir Rowlands a'r clerwr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans, Eifion Davies, Gwenda Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

- i) Dŵr yn llifo ar draws yr A494, cyn Braich Ddu - cafwyd cadarnhad fod y gweithlu wedi ailagor ffos ger y safle ond yn tybio bydd angen gwneud gwaith ychwanegol unwaith fydd y coed wedi cael eu clirio.
- ii) Cais am arwydd i Gwm Main ar gyffordd y A494 yng Nghefnddysarn - cafwyd cadarnhad fod darparu arwyddion newydd yn fater polisi ac yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth yn hytrach na'r Asiantaeth Cefnffyrdd eu hunain ac roedd y cais wedi cael ei basio'n mlaen iddynt.
- iii) Llwybr troed i Moel Emoel – nodwyd fod y weiren bigog ar draws y gamfa wedi cael ei dynnu i ffwrdd.
- iv) Tyllau yn y ffordd ger maes parcio Ysgol Bro Tryweryn - adroddodd y clerwr fod yr Adran Addysg Cyngor Gwynedd wedi cytuno mae eu cyfrifoldeb hwy oedd y ffordd ac am wneud trefniadau i'w thrwsio.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

- i) Cyngor Gwynedd – Hysbysiad o'r bwriad i gau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn a Trem y Wawr, Glanrafon ar y 4/11/20.
- ii) Parc Cenedlaethol Eryri - Gwybodaeth am eu Cronfa Prosiectau Cymuned. Gan fod y clerwr wedi derbyn ymholiad yn ddiweddar ynglŷn â chael lloches bws i blant ysgol pentref Frongoch cytunwyd i wneud cais i'r gronfa am gyfraniad ariannol tuag at y gost. Roedd y lloches bws wedi cael ei gynnwys yng nghais cynllunio prosiect y Cylch Meithrin ond ddim y gost.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Dim ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

vi) Materion Ariannol.

a) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Ad-daliad i'r clerwr am dalu i Gyngor Gwynedd am y bin gwastraff gardd i fynwent Llandderfel.

b) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Tŷ'r Eos a Cerebral Palsy Cymru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at waith Tŷ'r Eos ac i gadw cais Cerebral Palsy Cymru tan fis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Derbyniwyd y materion isod:-

- i) Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag Adran Ailgylchu Cyngor Gwynedd i'w atgoffa i wagu'r biniau ar gyrion pentref Llanfor.
- ii) Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r gymdeithas dai ynglŷn â thrwsio'r wal a gosod giatiau newydd o flaen y stad dai Tan y Foel yn Llanfor.
- iii) Cwestiynwyd pam oedd Dŵr Cymru wedi gollwng dŵr i lawr o Llyn Celyn yn ystod y glaw mawr yn ddiweddar yn hytrach nag yn ystod cyfnodau sychach blaenorol. Byddai'r holl ddŵr yma wedi ychwanegu ar y llifogydd yn is i lawr y dyffryn.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr
1af am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.**